

adnabod awdur

# ALYS JONES





Roeddwn i'n mwynhau darllen ac ysgrifennu pan oeddwn i'n ifanc iawn. Pan oeddwn ar fy mlwyddyn olaf yn yr ysgol gynradd, mi ddigwyddais ysgrifennu stori go faith a chofiaf i'r athro frolio dipyn go lew arni. Synnwn i ddim nad oedd yr uchelgais i ysgrifennu wedi ei phlannu ynof yr adeg honno.

Mi fyddwn i'n rwdlian ysgrifennu o hyd yn y cyfnod pan oeddwn yn yr ysgol uwchradd, ac yn cael pleser wrth wneud hynny. Mi gyfansoddais ddwsinau o gerddi a chychwyn ysgrifennu peth wmbredd o ddramâu na chafodd neb arall eu darllen. Roeddwn i'n mwynhau ysgrifennu stori yn y gwersi, a dyna'r unig waith cartref a wnawn yn ddirwgnach.

Pan oeddwn i'n dechrau gweithio fel athrawes, cwyn y plant o hyd oedd nad oedd hanner digon o ddewis o lyfrau Cymraeg da. Roedd gen i gydymdeimlad â nhw. Cofiw'n am fy ymweliadau â llyfrgell yr ysgol pan oeddwn i'n blentyn, a'r frwydr i gael gafael ar lyfr da pan oedd tua deg ar hugain o blant fel locustiaid o gwmpas y silffoedd. Efallai mai un o'r rhesymau pam y dechreuais ysgrifennu oedd yr awydd i roi un neu ddau yn rhagor o lyfrau ar silff llyfrgell yr ysgol.

Dechreuais ysgrifennu pan roddais y gorau i weithio i fagu plant. Enid Blyton roddai wefr i mi yn ddarllenwr ifanc, ac mae'n sicr fod dylanwad ei llyfrau antur ar fy llyfr cyntaf, *Ysbrydion y Môr*. Byddwn yn dweud storiâu wrth y plant amser gwely, ac mae nifer ohonynt erbyn hyn wedi eu cyhoeddi.

Byddaf yn ysgrifennu pan deimlaf awydd gwneud hynny, a phan gaf gyfle. Bydd syniadau am stori yn sboncio i fy mhen yn ddirybudd. Weithiau, lle ydy'r sbardun, dro arall cymeriad a thro arall dim ond enw. Yr hwyl ydy gweu'r stori o gwmpas y sbardun hwnnw.

*Alys Jones.*